GWAHODDIR CYNIGION

# CYN LYFRGELL, Y FENNI, NP7 5BD



DYDDIAD CAU TENDRAU – 12:00 (canol-dydd) 20 RHAGFYR

Arwynebedd Mewnol Gros 2,992 tr sg

Lleoliad yng nghanol dref gyda mannau parcio gerllaw

Adeilad cymunedol addas ar gyfer defnyddiau lluosog

## Y CYFLE

Mae Tîm Stadau Cyngor Sir Fynwy yn gwahodd cynigion i brynu neu brydlesu cyn adeilad Llyfgell  y Fenni, sydd wedi'i leoli yn Stryd Baker yng nghanol tref y Fenni.




## LLEOLIAD A DISGRIFIAD O'R SAFLE

Mae gan adeilad cyn Lyfrgell y Fenni restriad Gradd II a chafodd ei godi yn 1905 gan Sefydliad Carnegie. Codwyd yr adeilad er budd ac er gwasanaeth y gymuned leol ar gyfer dibenion addysgol.

Mae gan y cyn lyfrgell arwynebedd mewnol gros o tua 2,992 tr sg ac mae wedi ei leoli ar gornel Stryd Baker a Stryd Victoria. Mae'r llawr daear yn cynnwys dwy ystafell dderbyn fawr, cyntedd, toiled a storfa. Ar y llawr cyntaf mae nifer o swyddfeydd, toiled a chegin fach.

Mae Maes Parcio Teras y Drindod yn union gyferbyn gan roi mannau parcio i ddefnyddwyr.

## DALIADAETH

Mae'r safle ar gael yn rhydd-ddaliad gyda meddiant gwag.

## TRETH AR WERTH

Ni fydd Cyngor Sir Fynwy yn codi TAW ar yr eiddo hwn.

## STATWS CYNLLUNIO


Ei Ddosbarth Defnydd cyfredol (fel llyfrgell) yw D1 ond os yw partïon sydd â diddordeb yn anelu newid defnydd dylent gysylltu â'r Tîm Stadau yn y lle cyntaf
– 01633 644417.

## DULL GWERTHU

Derbynnir cynigion i naill ai brynu a/neu brydlesu'r eiddo (derbynnir cynigion lluosog). Gofynnir i bartïon â diddordeb gyflwyno ffurflen tendr i Dîm Stadau Cyngor Sir Fynwy yn defnyddio'r ffurflenni tendr a ddarparwyd, ddim hwyrach na **12:00pm ar 20 Rhagfyr 2024.** Caiff cynigion eu hasesu ar fatrics sgorio yn cynnwys cynnig ariannol, diwydrwydd dyladwy, profiad a galluedd cyllido. Caiff partïon hefyd eu hannog i roi manylion buddion ychwanegol, yn cynnwys unrhyw gynigion i ddefnyddio cyflogaeth/llafur lleol ac uchafu budd lleol.

## TELERAU

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ystyried strwythurau trafodiad eraill yn cynnwys cynigion diamod ac amodol.









Mae Cyngor Sir Fynwy yn hysbysu: Caiff y manylion hyn eu gosod fel amlinelliad cyffredinol ar-lein ar gyfer arweiniad darpar brynwyr neu brydleswyr ac nid ydynt yn ffurfio ohonynt eu hunain, nac yn ffurfio rhan o, gynnig neu gontract. Mae'r holl ddisgrifiadau, cyfeiriadau at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddianaeth a manylion eraill yn ddidwylll ac maent eu hunain drwy archwiliad neu fel arall am gywirdeb pob un ohonynt. Mae'r holl feintiau a roddir yn fras. Nid oes gan unrhyw unigolion a gyflogir gan Gyngor Sir Fynwy unrhyw awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o ba fath bynnag yng nghyswllt yr eiddo hwn. Mae'r holl ohebiaeth am y cynnig hwn yn amodol ar gontract. Os bydd anghysondeb rhwng y Manylion hyn a'r Amodau Gwerthiant, y diwethaf fydd yn drech.